# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Mercher 27 Chwefror 2002

Amser: 2:00 pm hyd 4:30 pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Sir Fynwy |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Christine Gwyther (yn dirprwyo dros Tom Middlehurst) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| John Zukowski | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitem 2) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| June Milligan (eitem 3) | Pennaeth yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Jill Thomas (eitem 3) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Bob Macey (eitem 4) | Pennaeth Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |

| | |
|---|---|
| Peter Jones (eitem 4) | Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau, y swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod, a hysbysodd y Pwyllgor ynghylch y datblygiadau isod:

- Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio – yr oedd PDC 2002/2 wedi cyfarfod ar 13 Chwefror;
- Ymchwiliad Nantygwyddon – yr oedd y cyfarfod llawn wedi cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor y diwrnod cynt. Byddai'r adroddiad ysgrifenedig yn cael ei ddosbarthu cyn bo hir ynghyd â llythyr yn gofyn am adborth ynghylch y broses ymchwilio. Byddai'r Gweinidog yn tynnu sylw'r awdurdodau perthnasol at yr argymhellion, ac yn adrodd yn ôl cyn gwyliau'r haf ynghylch y cynnydd a fyddai wedi ei wneud.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Yr oedd ymddiheuriad wedi dod i law gan Geraint Davies, a chan Tom Middlehurst, yr oedd Christine Gwyther yn dirprwyo ar ei ran.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau dan Reol Sefydlog 4.5. Dywedodd Val Lloyd fodd iddi fudd fel Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-05-02 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor ynghylch y materion isod:

- Glas Cymru – byddai'r Gweinidog yn cyfarfod cynrychiolwyr Glas Cymru ar 1 Mawrth, a byddai'n codi unrhyw faterion a fyddai'n cael eu hawgrymu gan yr Aelodau;
- Cyllideb Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth – yr oedd ychydig o fân newidiadau i ddod. Byddai'r manylion llawn yn cael eu hanfon at yr Aelodau;
- Datblygu Cynaliadwy (DC) – yr oedd fforwm DC cysgodol wedi ei sefydlu. Byddai manylion am aelodau'r fforwm yn cael eu hanfon at yr Aelodau. Bwriadai'r Gweinidog wneud datganiad yn y cyfarfod llawn ynghylch y cynnydd a oedd wedi ei wneud gyda'r gwaith o weithredu'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy rhwng Tachwedd 2000 a Mawrth 2001, gyda thrafodaeth lawn ar y cynnydd rhwng Ebrill 2001 a Mawrth 2002.

2.2 Codwyd y pwyntiau isod yn y drafodaeth:

**Diogelu'r Amgylchedd**

- Mewnforio plwtoniwm – byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelodau ynghylch trwyddedau ar gyfer dychwelyd plwtoniwm i'r DU;

- Y Gyfarwyddeb Nitradau – byddai'r Gweinidog yn codi'r angen am ddull gweithredu integredig wrth ddelio gyda'r effaith y mae gwelliannau mewn dulliau ffermio yn ei gael ar yr amgylchedd gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig.

**Cynllunio**

- Cynllunio: Cyflwyno dros Gymru – byddai'r Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r ymarfer ymgynghori, ac unwaith yn rhagor am gynigion drafft ar gyfer newid. Awgrymodd yr Aelodau y dylid cael trafodaeth yn y cyfarfod llawn yn dilyn hyn;

- Treth Agregiadau – byddai'r Gweinidog yn ysgrifennu at yr Aelodau ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU i edrych ar effaith y dreth arfaethedig ar fusnesau.

**Trafnidiaeth**

- Cludiant bws lleol am ddim – byddai deunydd cyhoeddusrwydd yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Cynulliad, rhoddid rhifau ffôn pobl i gysylltu â hwy mewn awdurdodau lleol unigol er mai Uned Teithwyr Gwent fyddai'n cyd-drefnu'r gwaith yn yr ardal honno. Byddai'r costau gweithredu'n cael eu hadolygu, fel y cytunwyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yng ngoleuni astudiaeth o flwyddyn gyntaf y cynllun a byddai modd addasu'r arian a fyddai ar gael ar gyfer awdurdodau unigol pe bai angen.
- Cludiant Cymunedol – Yr oedd yr Aelodau'n awyddus i weld teithio di-dâl yn cael ei ymestyn i gynlluniau cludiant cymunedol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu yn dilyn y profiad o gyflwyno cludiant am ddim ar fysus ond nid oedd y mater yn un syml gan fod gwahanol fathau o ddarpariaeth. Byddai'r Gweinidog hefyd yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl i ymchwil i Gludiant Cymunedol gael ei chyflwyno i'r Fforwm Trafnidiaeth ar 24 Mehefin;

- Ffyrdd diogel i Ysgolion – byddai'r Gweinidog yn dosbarthu rhestr o gynlluniau i'r Aelodau.

**Cyfarfod y Sector Gwirfoddol**

- Yr oedd yr Aelodau'n croesawu'r adborth cadarnhaol o'r cyfarfod rhwng y Gweinidog a'r Sector Gwirfoddol a byddai ganddynt ddiddordeb mewn cael adroddiadau cynnydd gan y Gweithgor Cyfle Cyfartal.

**Eitem 3: Is-ddeddfwriaeth – Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Apeliadau mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** – EPT-05-02 (p 2)

3.1 Gwnaeth y Pwyllgor nodyn o'r papur a chytunodd y dylai'r rheoliadau drafft fynd yn eu blaenau heb i'r Pwyllgor eu hystyried eto.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ar drefniadau ar gyfer delio gydag is-ddeddfwriaethau yn y dyfodol. Byddai'r Gweinidog yn darparu papur yn nodi'r is-ddeddfwriaethau drafft a fyddai'n cael eu cyflwyno yn y dyfodol ar ddechrau pob tymor, er mwyn i'r Pwyllgor allu nodi meysydd i'w harchwilio (yr oedd papur yn edrych ymlaen at Ebrill 2002 wedi ei ddosbarthu, copi ynghlwm yn Atodiad 1). Byddai trafodaeth ar is-ddeddfwriaethau arfaethedig yn ymddangos fel eitemau annibynnol ar agenda'r Pwyllgor.

**Eitem 4: Llifogydd** – **Ymgynghoriad ar yr Adolygiad Ariannu a Diweddariad Cyffredinol** EPT-05-02 (p 3)

1. Gofynnodd y Gweinidog am farn y pwyllgor am drefniadau gweinyddu ac ariannu arfaethedig ar gyfer Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol. Eglurodd Bob Macey gefndir yr adolygiad a rhoddodd amlinelliad byr o'r trefniadau gweinyddu ac ariannu presennol (gweler y nodyn yn Atodiad 2).

4.2 Codwyd y pynciau isod yn y drafodaeth:

- Cyllid – yr oedd cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o barhau â chyllid gan y Trysorlys ar gyfer cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir;

- Yswiriant – yr oedd Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi gwarantu yswiriant ar gyfer eiddo lle'r oedd perygl o lifogydd hyd at Ragfyr 2002. Gofynnodd y Gweinidog am fanylion am achosion lle gwrthodwyd parhau i yswirio;

- Materion yn croesi’r ffin – Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Lloegr sy’n gyfrifol am waith amddiffyn rhag llifogydd mewn rhai rhannau o Bowys, ond bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ariannu prosiectau cyfalaf;

- Prif afonydd / afonydd cyffredin – yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda’i gilydd mewn achosion o lifogydd mewn ardaloedd lle’r oedd prif afonydd ac afonydd cyffredin yn ymuno. Yr oedd y Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd yn gyfrifol am ailddosbarthu afonydd fel prif afonydd neu afonydd cyffredin. Byddai map yn dangos afonydd sydd wedi eu dynodi’n brif afonydd yn cael ei anfon at yr aelodau er gwybodaeth;

- Dogfen ymgynghorol – yr oedd yr Aelodau’n bryderus nad oedd fersiwn Cymraeg o’r ddogfen ar gael eto, a hwn yn fater mor bwysig.

4.3 Byddai’r Gweinidog yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor yn dilyn y broses ymgynghori. Gallai’r Cynulliad Cenedlaethol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fwrw ’mlaen â rhai o’r argymhellion, ond byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer eraill.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfodydd 9 Ionawr a 12 Chwefror** - EPT-01-02 (min) ac EPT-04-02 (min)

5.1 Derbyniodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Ionawr a 12 Chwefror.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 2.00 pm ddydd Mercher 13 Mawrth 2002 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2002**

**ATODIAD 1**

**Rhestr Is-ddeddfwriaethau: Rhestr Edrych Ymlaen Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

**(Ionawr i Ebrill 2002)**

| Teitl | Beth fydd y Rheoliadau’n ei Wneud | Camau y Bwriedir eu Cymryd | Sylw |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Cytundebau Cymorthdaliadau Gwasanaeth (Tendro) (Diwygio) (Cymru) 2001 | Newid yr hicyn sy’n nodi pa bryd y mae’n rhaid i awdurdodau ofyn am dendrau ar gyfer contractau bysus lleol i 40% o gyfanswm cymorthdaliadau bysus awdurdod | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo<br><br>Dod i rym yn Ebrill 2002 | Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i ymgynghoriad blaenorol gan y diwydiant bysus ac awdurdodau lleol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Cynlluniau Partneriaeth o Safon Statudol – Y Cyfleusterau Presennol | Gall y rheoliadau nodi na ellir cynnwys cyfleusterau bws sy'n bodoli'n barod mewn cynllun Partneriaeth o Safon os oeddent yn cael eu darparu cyn dyddiad arbennig | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Nod cynllun Partneriaeth o Safon yw gwella gwasanaethau bws lleol |
| Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Swyddogaethau Priffyrdd) (Cymru) | Caniatáu i'r gwaith o weithredu'r hawliau i godi tâl ar gyfleustodau, lle bo gwaith stryd yn parhau ar ôl dyddiad y cytunwyd arno, gael ei gontractio allan i'r sector preifat | Ymgynghori ynghylch drafft | Offeryn Statudol i'w ddrafftio |
| Rheoliadau Gwaith Stryd (Taliadau am Feddiannu Priffordd yn Rhy Hir) (Cymru) | Caniatáu i awdurdodau strydoedd godi tâl ar gontractwyr a chyfleustodau am waith stryd sy'n parhau ar ôl dyddiadau y cytunwyd arnynt | Ymgynghori ynghylch drafft | Offeryn Statudol i'w ddrafftio |
| Rheoliadau Gwaith Stryd (Rhannu Costau Gwaith) (Cymru) Rheoliadau | Lleihau cyfran cost y gwaith y mae'n rhaid i gyfleustodau ei dalu o 18% i 7.5% lle mae angen aflonyddu ar y cyfarpar sydd ganddynt o dan y ffordd o ganlyniad i gynllun cludiant cyhoeddus sylweddol | Ymgynghori ynghylch drafft | Offeryn Statudol i'w ddrafftio |
| Rheoliadau Gwaith Stryd (Cofnodion) (Cymru) | Nodi rheolau ar gyfer ymgymerwyr cyfleustodau ynghylch cadw cofnodion o'r cyfarpar sydd ganddynt yn y briffordd | Ymgynghori ynghylch drafft | Y Cynulliad yn cysylltu gyda'r DTLR |
| Gorchymyn Datblygiadau Cyffredinol a Ganiateir Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygio) | Gwella'r trefniadau cynllunio presennol ar gyfer datblygiadau telathrebu | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Cynigion mewn ymateb i Adroddiad Stewart ar ffonau symudol, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus |
| Gorchymyn Trefniadau Datblygu Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref (Diwygio) | Diwygiad i drefniadau sy'n effeithio ar geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu mast telathrebu | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Cynigion mewn ymateb i Adroddiad Stewart ar ffonau symudol, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus |
| Rheoliadau Ffïoedd Cynllunio (Diwygio) | Codi'r taliadau cynllunio ar gyfer datblygiadau telathrebu | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Cynigion mewn ymateb i Adroddiad Stewart ar ffonau symudol, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus |
| Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Amodol a Therfynol) 2002 | Llunio mapiau amodol a therfynol o gefn gwlad agored a thiroedd comin cofrestredig a delio gydag apeliadau yn erbyn dangos tir ar y mapiau amodol | Ymgynghori ynghylch drafft | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau) 2002 | Cynlluniau yn ymwneud â’r trefniadau ar gyfer gwahardd neu gyfyngu mynediad i gefn gwlad agored a thiroedd comin cofrestredig | Ymgynghori ynghylch drafft | |
| Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Dynodi Tir yn Wirfoddol) 2002 | Yn caniatáu i berchennog unrhyw dir ddynodi’r tir yn derfynol ar gyfer mynediad cyhoeddus. Bydd y rheoliadau’n ymwneud â’r dulliau a’r broses o ddynodi | Ymgynghori ynghylch drafft | |
| Rheoliadau Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Apeliadau SoDdGA) (Cymru) 2002 | Gwneud trefniadau’r Cynulliad ar gyfer delio gydag apeliadau sy’n ymwneud â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn statudol | Adroddiad i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth | Cyflwynwyd yr hawl i apelio gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac yn y blaen) (Diwygio) (Cymru) 2002 | Gosod ymrwymiad penodol sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd o safbwynt rhywogaethau Ewropeaidd sydd wedi eu gwarchod fel rhan o’r broses gynllunio | Ymgynghori ynghylch drafft | Cyhoeddwyd cynigion amlinellol yng Nghylchlythyr 23/2001 Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Gorchymyn Pwyllgor Ymgynghorol Cymru (Terfynu) | Diddymu Pwyllgor Ymgynghorol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd) yn y Cynulliad | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo. | Mae Pwyllgor yr Amgylchedd eisoes wedi derbyn yr argymhelliad i ddiddymu’r Pwyllgor. |
| Rheoliadau’r Diwydiant D•r (apwyntiadau mewnosod) | Annog cystadleuaeth yn y diwydiant d•r ar gyfer defnyddwyr mawr. | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo. | Fel pwnc sy’n croesi’r ffin bydd angen i hwn gael ei gymeradwyo gan Senedd y DU. |
| Gorchymyn y Diwydiant D•r (Cynllun Safonau Gwarantedig) | Newid safonau gwasanaeth i gwsmeriaid cwmnïau d•r. | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo. | Fel pwnc sy’n croesi’r ffin bydd angenni hwn gael ei gymeradwyo gan Senedd y DU. |
| Canllawiau Statudol i Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch ei nodau/amcanion | Canllawiau i’r Asiantaeth ynghylch cyflawni ei swyddogaethau yng Nghymru. | Ymgynghori ynghylch drafft | Gweithredu argymhelliad Rheolaeth Ariannol ac Adolygu Polisi Asiantaeth yr Amgylchedd. |
| Rheoliadau Diwygio Gwastraff Arbennig | Newid rheoliadau gwastraff peryglus er mwyn cydymffurfio â gofynion y GE | Ymgynghori ynghylch drafft. | Un o ofynion yr UE. Bwriad i gyflwyno’r rheoliadau yn haf 2002, ond amserlen y Cynulliad yn dibynnu ar DEFRA . |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diwygio Gwastraff Pacio | Pennu lefelau newydd ar gyfer ailgylchu deunydd pacio. | Trefniadau gweithredol. | Trefniadau gweithredol y mae'n debyg y bydd eu hangen er mwyn bod yr un fath â gweddill y DU ac er mwyn bodloni gofynion yr UE. |
| Rheoliadau Hyfedredd Technegol Diwygio Trwyddedau Rheoli Gwastraff | Newid y gofynion sy'n ymwneud â hyfedredd technegol gweithredwyr cyfleusterau gwastraff. | Ymgynghori ynghylch drafft. | |
| Rheoliadau Diwygio Trwyddedau Rheoli Gwastraff | Newidiadau technegol ar gyfer offer symudol a rhestrau cyhoeddus. | Ymgynghori ynghylch drafft. | |
| Hysbysiadau cosbau penodedig | Codi hysbysiadau cosbau penodedig sy'n ymwneud â sbwriel a baw c•n. | Ymgynghori ynghylch drafft. | |
| Canllawiau Statudol ar reoli Deunydd Ymbelydrol sy'n cael ei Ryddhau i'r Amgylchedd o Safleoedd Niwclear Trwyddedig | Canllawiau yn ymwneud â rhoi caniatâd i ryddhau deunyddiau ymbelydrol ar ffurf hylif a nwy i'r amgylchedd. | Ymgynghori ynghylch drafft | Mae Adran 4 Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidogion o bryd i'w gilydd roi canllawiau i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymwneud ag amcanion y maent yn credu eu bod yn briodol i'r Asiantaeth geisio'u cyflawni. Mae'r canllawiau'n ymwneud â rhoi caniatâd i ryddhau deunyddiau ymbelydrol ar ffurf hylif a nwy i'r amgylchedd |
| Rheoliadau Diogelu D•r Rhag Cael Ei Lygru gan Nitrad Amaethyddol | Ymestyn y Parthau sy'n Agored i Nitrad yng Nghymru | Ymgynghori ynghylch drafft. | Mae'n debyg y bydd angen trefniadau gweithredol o ganlyniad i ddatblygiadau yng ngweithdrefnau troseddu'r GE, ac er mwyn bod yn unol â gweddill y DU. |
| Cyfarwyddyd Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cyfarwyddeb Rhyddhau Toddyddion) (Cymru) 2002 | Mae'r Cyfarwyddyd yn ceisio atal neu leihau effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol rhyddhau cyfansoddion organig ymfflamychol i'r amgylchedd a'r risgiau posibl i iechyd pobl | Cyfarwyddyd i'w gyhoeddi | Cyfarwyddyd i'w roi i Asiantaeth yr Amgylchedd ac i awdurdodau lleol yn gofyn iddynt sicrhau bod y gofynion yn cael eu bodloni yn achos y diwydiannau maent yn eu rheoli |
| Rheoli Llygredd Awdurdodau Lleol – Rheoli Cyfarpar Diwydiannol – Cynllun Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2002 - 2003 | Mae ffioedd a thaliadau Rheoli Llygredd Awdurdodau Lleol yn adennill costau cyflawni cyfrifoldebau rheolaethol diwydiannol awdurdodau lleol | Taliadau newydd i'w cyhoeddi | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| BS5228 – Rheoli S•n (Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gyfer Gwaith Adeiladu a Safleoedd Agored) | Yn nodi cyfarwyddiadau ymarfer ar gyfer lleihau s•n | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | |
| Gwerthoedd Uchaf Ansawdd Aer 2002 | Cymryd lle Rheoliadau Gwerthoedd Uchaf Ansawdd Aer (2001) sy'n cynnwys safonau ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, ocsidau nitrogen, sylweddau gronynnol a phlwm | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Cymryd lle'r fersiwn blaenorol mewn ymateb i sylwadau a wnaethpwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth |
| Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru)(Diwygio) 2002. | Tynhau amcanion ansawdd aer ar gyfer PM10, Bensen, carbon monocsid a chyflwyno amcan ar gyfer hydrocarbonau aromatig polysyclig. | Cyfarfod Llawn i gael eu Cymeradwyo | Gwaith ymchwil yn cael ei wneud gyda'r posibilrwydd o safonau llymach ar gyfer gronynnau. Amserlen yn dibynnu ar y cynnydd a wneir gan DEFRA |

**ATODIAD 2**

**CEFNDIR AMDDIFFYNFEYDD RHAG LLIFOGYDD AC AMDDIFFYNFEYDD ARFORDIROL**

**1 AMDDIFFYNFEYDD RHAG LLIFOGYDD**

Mae afonydd yn cael eu categoreiddio fel prif afonydd neu afonydd cyffredin (afonydd nad ydynt yn brif afonydd).

**a) Prif afonydd**

Mae gan Bwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol gyfrifoldebau statudol (h.y. hawliau caniataol ond nid dyletswydd statudol) sy'n ymwneud â phrif afonydd. Mae chwe Phwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol yng Nghymru, ynghyd â Phwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarthol, ac mae pob un yn cael ei gynghori gan Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gwneud y gwaith ar eu rhan. Mae gan ddau o'r Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol sydd yng Nghymru gyfrifoldeb am afonydd sydd yn Lloegr. Mae Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Lloegr yn gyfrifol am rai afonydd yng Nghanolbarth Cymru.

Mae aelodau Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarthol Cymru'n cael eu henwebu gan Awdurdodau Lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gwaith cyfalaf a refeniw'n cael ei ariannu drwy ardollau Awdurdodau Lleol, sy'n cael eu hariannu drwy Grant Cynnal Refeniw. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig cefnogaeth ariannol i Bwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd ar gyfer cynlluniau cyfalaf drwy ei Gynllun Amddiffyn rhag Llifogydd.

**b) Afonydd cyffredin**

Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol (h.y. hawliau caniataol ond nid dyletswydd statudol) sy'n ymwneud ag afonydd cyffredin yn eu hardaloedd daearyddol. Ariennir gwaith cyfalaf a refeniw gan yr Awdurdodau Lleol, drwy Gyllid Cyfalaf Cyffredinol amhridiannol a thrwy Grant Cynnal Refeniw amhridiannol.

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnig cefnogaeth ariannol i Awdurdodau Lleol ar gyfer cynlluniau cyfalaf drwy ei Gynllun Amddiffyn rhag Llifogydd.

## 2 AMDDIFFYN YR ARFORDIR

Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb statudol (h.y. hawliau caniataol ond nid dyletswydd statudol) sy’n ymwneud ag amddiffyn yr arfordir. Nid oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Phwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol locws. Ariennir gwaith refeniw Amddiffyn yr Arfordir gan yr Awdurdodau Lleol, drwy Grant Cynnal Refeniw amhridiannol. Gall y Cynulliad Cenedlaethol ariannu gwaith cyfalaf cymwys er mwyn Amddiffyn yr Arfordir drwy grant cyfalaf pridiannol a Chymeradwyaeth Credyd Atodol. Lle nad yw Cymeradwyaeth Credyd Atodol yn briodol yna byddai Awdurdodau Lleol yn ariannu gwir gostau grant â’u Cyllid Cyfalaf Cyffredinol amhridiannol neu â’u cyllidebau eu hunain.